CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008

Cefndir

1. Sefydlwyd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ("y pwyllgor") er mwyn trafod *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008* ("Gorchymyn Rhif 5") a chyflwyno adroddiad arno.

2. Cyflwynwyd ein hadroddiad ar 18 Ebrill 2008.

3. Ar 13 Mai 2008, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008* ("y Gorchymyn arfaethedig diwygiedig") a Memorandwm Esboniadol diwygiedig gerbron Senedd y DU ar gyfer craffu arno cyn y broses ddeddfu.[1] Ni chyflwynwyd y Gorchymyn arfaethedig diwygiedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008

4. Cafwyd tystiolaeth ychwanegol gan Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai, ar 8 Gorffennaf 2008.

5. Rydym yn croesawu'r ffaith y cafodd y Gorchymyn arfaethedig diwygiedig a osodwyd gerbron Senedd y DU ei ddiwygio er mwyn ehangu cwmpas y Gorchymyn Rhif 5 a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

6. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw'r newidiadau'n mynd ddigon pell ac nid yw'r Gorchymyn arfaethedig diwygiedig yn ddigon eang ei gwmpas i sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y pwerau deddfwriaethol angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl i fynd i'r afael â holl faterion tai fforddiadwy yng Nghymru, rhywbeth y dymunwn ei weld.

---

[1] Fel Papur Gorchymyn Cm 7379

Proses Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

7. O ran y broses a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn, rydym yn pryderu y gwahoddwyd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi i graffu ar fersiwn o'r Gorchymyn arfaethedig sy'n wahanol i'r fersiwn y craffwyd arni gan y pwyllgor hwn. Er ein bod yn nodi ac yn cydnabod yr esboniad a gafwyd ynghylch hyn gan y Dirprwy Weinidog, nid ydym yn ystyried hwn yn arfer da.

8. Fel egwyddor gyffredinol, credwn y dylai pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau Senedd y DU graffu ar yr un fersiwn o Orchymyn arfaethedig.

9. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau pryd na fydd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Gorchymyn arfaethedig yn sicrhau cytundeb gan Whitehall cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a'i drafod gan Bwyllgor Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. O ganlyniad, gall fod achlysuron pan fydd yr Aelod sy'n gyfrifol, ar ôl llwyddo i sicrhau cytundeb Whitehall, yn dymuno diwygio'r Gorchymyn arfaethedig, ac o bosibl ystyried argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a hynny cyn ei gyhoeddi yn Senedd y DU ar gyfer craffu arno cyn y broses ddeddfu. Mewn amgylchiadau o'r fath, credwn y dylid dwyn unrhyw ddiwygiadau i'r Gorchymyn arfaethedig i sylw'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, gan roi'r cyfle iddo graffu ar y diwygiadau hynny cyn cyhoeddi y Gorchymyn arfaethedig yn Senedd y DU.

10. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i gynnwys ei sylwadau ar y diwygiadau un ai yn ei adroddiad gwreiddiol neu mewn adroddiad atodol, a, thrwy hynny, roi'r darlun llawn a'r un diweddaraf i bwyllgorau Senedd y DU o gasgliadau'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyn iddynt hwy ddechrau ar eu gwaith craffu.

Leanne Wood
Cadeirydd
Gorffennaf 2008